

## **Y Grŵp Trawsbleidiol ar Goetiroedd, Coedwigaeth a Phren Cofnodion**

**16 Mai 2018**

### **Aelodau'r Cynulliad yn bresennol:**

Simon Thomas, Mandy Jones, Mark Isherwood, Mike Hedges, Dai Lloyd, David Melding,

**Ymddiheuriadau a chefnogwyr:** Adam Price, Mark Reckless, Lee Waters, David Rowlands, Eluned Morgan.

**Siaradwyr:** Eleanor Harris a Martin Bishop, Confor; Gary Newman, WoodKnowledge Wales.

### **Yn bresennol:**

Andrew Bronwin, Iwan Parry, Dai Jones, Mark Price, Nigel Elias, Brendon Freeman, Shea Jones, David Williams, Maria Wilding, Ian Thomas, Nigel Elgar, Martyn Evans, Sally Tamsey, Gareth Davies, John Pugsley, Dr John Littlewood, Elfyn Henderson, Bill MacDonald.

## **Cofnodion**

### **Rhagarweiniad**

Croesawodd Simon Thomas bawb a oedd yn bresennol, ac esboniodd mai pwrpas y cyfarfod oedd ystyried ffurfio grŵp trawsbleidiol yn y Cynulliad Cenedlaethol ar goedwigaeth, coetiroedd a phren.

### **Cyflwyniad**

Cafwyd cyflwyniadau gan Eleanor Harris (Confor), Martin Bishop (Confor) a Gary Newman (WoodKnowledge Wales) ar bwysigrwydd y sector coedwigaeth a phren i ystod eang o adrannau Llywodraeth Cymru.

### **Cwestiynau a thrafodaeth**

Gwnaeth Mandy Jones AC sylwadau ar y dinistr a achoswyd gan lwyrgwmpo coed ar raddfa fawr a gofynnodd sut y byddai'r ardaloedd hyn yn cael eu hailblannu a'u rheoli yn y dyfodol. Esboniodd Martin Bishop y byddai'r hen blanhigfeydd 'bloc', o dan Safon Coedwigaeth y DU, yn cael eu hailblannu, gydag o leiaf 25 y cant o'r tir yn cael ei reoli ar gyfer bioamrywiaeth, gan gynnwys coed llydanddail brodorol a manau agored. Ychwanegodd Andrew Bronwin mai'r cnydau, sy'n cynhyrchu'r incwm a'r cynhyrchion coed, yw'r conwydd, a bod y llydanddail yno i hybu bioamrywiaeth ac i gyfrannu at amwynder yr ardal. Mae'n bosibl tyfu rhywogaethau fel coed derw yn fasnachol, ond mae angen mwy o reolaeth a thir gwell ar y rhain nag sydd wedi bod ar gael yn draddodiadol ar gyfer coedwigaeth, tra bydd conwydd yn tyfu ar dir nad yw'n werthfawr o ran amaethyddiaeth.

Gofynnodd Mark Isherwood AC sut y gellid ehangu'r farchnad ar gyfer tai pren, o ran dewis a chwant y cyhoedd, ond hefyd o ran morgeisi. Atebodd Gary Newman nad yw hyn yn debygol o fod yn broblem, gan fod llawer o dai eisoes wedi'u hadeiladu â ffrâm bren (gan gynnwys y mwyafrif o dai newydd yn yr Alban). Yn aml, nid yw'r rhai sy'n byw yn y tai yn ymwybodol o hyn, gan y gall ffasâd o frics orchuddio'r ffrâm, ac mae cwmnïau morgais yn fodlon arnynt.

Nododd Mark Isherwood AC y bu pryderon, rai blynyddoedd yn ôl, y byddai gorgyflenwad o bren ar ôl newid yn y broses gynhyrchu papur i ddefnyddio mwydion coed wedi'u hailgyrchu yn bennaf. Yna, ychydig flynyddoedd yn ddiweddarach, roedd pryder ynghylch prinder pren. Gofynnodd sut y

gallem wella i sicrhau ein bod yn diwallu anghenion cyflenwad yn y dyfodol. Atebodd Martin Bishop nad oes digon o goed yn cael eu plannu ar hyn o bryd i ateb y galw am gyflenwad. Mae'r sector prosesu yn dweud bod ganddo'r gallu cynhyrchu a'r farchnad i brosesu a gwerthu dwywaith cymaint â'r hyn sydd ar gael ar hyn o bryd, ond ein bod wedi colli 18,000 hectar o goedwigaeth gynhyrchiol dros y blynyddoedd diwethaf, felly bydd y cyflenwad yn gostwng wrth i'r galw godi. Ychwanegodd Mark Price (Kronospan) fod prosesyddion bellach yn gorfod mewnfurio deunydd.

Gofynnodd Shea Jones (Sefydliad Materion Cymreig) beth y byddai ei angen i fod yn hunangynhaliol o ran pren. Atebodd Martin Bishop y byddai 30 y cant o orchudd coedwig yn awgrym rhesymol, o gymharu pa wledydd yn Ewrop sy'n allforio, yn mewnfurio neu'n hunangynhaliol. Ychwanegodd Eleanor Harris fod hyn yn dal i fod yn is na'r cyfartaledd yn Ewrop, a chyfartaledd gwledydd fel Ffrainc a'r Almaen.

Gofynnodd Shea Jones sut y byddai newid hinsawdd yn debygol o effeithio ar dwf coed. Dywedodd Andrew Bronwin ei fod yn annhebygol o effeithio ar dwf, ond ei fod yn debygol o effeithio ar ddewis rhywogaethau, a dywedodd fod hyn yn faes lle roedd angen mwy o ymchwil.

Gofynnodd Ian Thomas (Croeso i'n Coedwigoedd) beth y dylai rôl coetiroedd cymunedol fod, gyda'u cronfa eang o wirfoddolwyr, ym maes datblygiad coedwigaeth ehangach. Atebodd Martin Bishop mai llysgenhadon y sector oedd coetiroedd cymunedol. Ychwanegodd Simon Thomas fod pwyllgor CCERA wedi ymweld â choetir cymunedol a fu'n brofiad dysgu rhagorol, ac y byddai'n sicr yn awyddus iddynt gymryd rhan mewn grŵp trawsbleidiol.

Dywedodd Brendon Freeman (Pwyllgor y DU ar Newid Hinsawdd) fod y Pwyllgor ar Newid Hinsawdd wedi argymhell cynnydd sylweddol mewn targedau plannu, a'u bod bellach yn gweithio ar adroddiad yn ymchwilio i ba gamau ymarferol sydd eu hangen i sicrhau bod y targedau hyn yn cael eu bodloni. Gofynnodd beth oedd yr anawsterau mwyaf o ran plannu coed, a sut y gall Pwyllgor y DU ar Newid Hinsawdd helpu i'w goresgyn. Dywedodd Andrew Bronwin fod cyllid yn fater pwysig: mae angen llif arian ar ffermwyr, ac er bod coedwigoedd yn cynhyrchu incwm da ar ôl eu sefydlu, grantiau'r Llywodraeth yw'r unig ffordd ymarferol o bontio'r bwlch rhwng plannu a chynaeafu, ac i wneud iawn am golli cymhorthdal ffermio. Ychwanegodd fod problemau diwylliannol hefyd: oherwydd nad oes unrhyw goed conwydd wedi cael eu plannu ers 30 mlynedd, mae pobl yn dal i ddisgwyl iddynt gael eu plannu yn ôl yr hen ddull, pan oedd llawer llai o fesurau rheoleiddio ac, yn sicr, gwnaed camgymeriadau. Ychwanegodd Iwan Parry o Tilhill fod yna optimistaeth hefyd ynglŷn â phlannu: gall Brexit fod yn gyfle annisgwyl, ac mae gan ffermwyr iau a mwy blaengar ddiddordeb mawr mewn plannu coed, ond mae angen cyllid arnynt. Yn benodol, ni ddylid cael bwlch yn y cyllid ar ddiwedd y cylch cyllido Glastir presennol, y flwyddyn nesaf, ar yr adeg pan mae ffermwyr wedi dechrau cael y grantiau. Ychwanegodd Simon Thomas fod Lesley Griffiths wedi dweud y dylid cynnwys ardaloedd a gafodd eu heithrio o gymorthdaliadau amaethyddol yn yr UE, gan gynnwys coedwigaeth a garddwriaeth, mewn unrhyw gynllun yn y dyfodol. Dywedodd Dai Jones (Hugh Wheeldon & Co) mai'r drydedd broblem fawr gyda phlannu coed oedd bod angen i'r rheoleiddiwr aeddfedu. Mae'r rheoleiddiwr yn cymryd rôl sedd gefn, gan adael i goedwigwyr a rhanddeiliaid frwydro dros fanylion y cynnig, a dim ond os yw pob rhanddeiliad yn fodlon y bydd yn ei gymeradwyo. Mae angen iddo fod yn fwy rhagweithiol wrth gymryd cyfrifoldeb am gyflawni ei dargedau ac am arwain y broses. Mae gan y rheoleiddiwr ddigon o gapasiti a staff gwybodus, ond mae angen rhoi cyfrifoldeb iddo.

Hysbysodd Simon Thomas y grŵp fod digon o Aelodau'r Cynulliad o bleidiau gwahanol wedi mynegi diddordeb mewn grŵp trawsbleidiol i greu un yn ffurfiol. Esboniodd mai'r grwpiau trawsbleidiol yw'r prif ddull ar gyfer cynnal digwyddiadau agored yn y Cynulliad Cenedlaethol yn y modd hwn, er bod digwyddiadau achlysurol hefyd. Mae dibenion y grwpiau yn cynnwys cynyddu dealltwriaeth o bwnc penodol yn y Cynulliad; darparu'r adnoddau i Aelodau'r Cynulliad er mwyn iddynt allu gofyn y cwestiynau cywir i'r gweinidogion; a gwahodd y gweinidogion i drafod ac ateb

cwestiynau. Rhaid cynnal o leiaf un cyfarfod bob blwyddyn i gadarnhau bodolaeth y grŵp, ac ail-etholwyd y cadeirydd a'r ysgrifennydd yn y cyfarfod hwnnw.

Cytunodd y rhai a oedd yn bresennol i sefydlu grŵp trawsbleidiol, gan ethol Simon Thomas AC yn gadeirydd, a Martin Bishop (Confor) yn ysgrifennydd.